Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4417A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Cyflwyniad 4

Amcanion a chwmpas ein gwaith 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 13

Atodiad 1 – Meini prawf archwilio 15

Atodiad 2 – Dulliau archwilio 21

Atodiad 3 – Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 23

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

1 Mae GIG Cymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Mae etifeddiaeth pandemig COVID-19 ar alw gwasanaethau, y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â staffio, ynni, meddyginiaethau, cynnal ystad sy'n heneiddio, mynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd cynyddol gymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio i gyd yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar draws y GIG.

2 Er bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £425 miliwn ychwanegol ar gael i'r GIG ym mis Hydref 2023, roedd sefyllfa diwedd blwyddyn 2023-24 ar gyfer GIG Cymru yn ddiffyg cyfunol o £183 miliwn. Er bod rhai cyrff GIG wedi gallu cyflawni cydbwysedd ariannol diwedd blwyddyn, roedd y sefyllfa i eraill – yn enwedig rhai Byrddau Iechyd - yn heriol gyda nifer yn methu â chyflawni'r cyfanswm diffyg rheoli[1] a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

3 Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024-25 yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol. Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau bod ganddynt ddulliau cadarn ar waith i nodi a chyflawni cyfleoedd gwella costau yn ystod y flwyddyn a hefyd i fabwysiadu dull tymor hwy o ran sicrhau cynaliadwyedd ariannol sy'n symud i ffwrdd o ddulliau tymor byr i rai lle cyflawnir arbedion trwy drawsnewid modelau gwasanaeth a ffyrdd o weithio.

## Amcanion a chwmpas ein gwaith

4 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, amcan ein hadolygiad fu archwilio a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd arbed costau cynaliadwy. Cyflwynir y meini prawf archwilio manwl yn **Atodiad 1.**

5 Gwnaed y gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

6 Gwnaethom ymgymryd â'r rhan fwyaf o'n gwaith rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Mawrth 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 2**. Mae ein gwaith yn cynnig sylwadau ar y dull yn y Bwrdd Iechyd o nodi, cyflawni a goruchwylio cyfleoedd arbed costau. Mae'n ystyried yr effaith a gafodd y trefniadau hyn ar sefyllfa diwedd blwyddyn 2023-24 ac yn amlygu lle y gallai fod angen cryfhau trefniadau ar gyfer 2024-25 a thu hwnt.

[1] Neilltuwyd sefyllfaoedd diffyg diwygiedig ar gyfer 2023-24, a adnabyddir fel 'cyfansymiau rheoli', i Fyrddau Iechyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2023 ar ôl y ddarpariaeth o gyllid ychwanegol i gefnogi eu sefyllfaoedd ariannol.

# Canfyddiadau allweddol

7 Canfuwyd gennym ar y cyfan, **er bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei darged diffyg ar gyfer 2023-24, bod ei hanes diweddar o gyflawni yn erbyn ei dargedau arbedion cyffredinol yn gyfnewidiol iawn. O ystyried sefyllfa ariannol heriol presennol y Bwrdd Iechyd, mae angen iddo gyflymu ar frys gwaith ar gyflwyno model gwasanaeth newydd sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol a sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i gefnogi'r newidiadau sy'n ofynnol.**

8 Mae'r canfyddiadau sy'n cefnogi ein casgliad cyffredinol wedi'u crynhoi isod o dan y penawdau canlynol:

- Nodi cyfleoedd arbed costau.
- Darparu cyfleoedd arbed costau.
- Monitro a throsolwg o gynlluniau arbedion.

## Nodi cyfleoedd arbed costau

9 Ystyriwyd gennym:

- a oes gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth eglur o'r ffactorau sy'n rheoli ei gostau;
- a yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amrywiaeth o ddata a gwybodaeth fel mater o drefn i helpu i nodi cyfleoedd arbed costau; ac
- a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o ddethol cyfleoedd arbed costau.

10 Canfuwyd gennym fod **gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n rheoli ei gostau, a phroses eglur ar gyfer nodi a dethol cyfleoedd arbed costau. Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i drawsnewid ei fodel gwasanaeth i sicrhau cynaliadwyedd ariannol, bydd angen iddo gynyddu cyflymder y gwaith hwn i atal ei sefyllfa ariannol rhag gwaethygu ymhellach.**

### Deall y ffactorau sy'n rheoli costau

11 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n rheoli ei gostau, sydd wedi'u cyflwyno yn eglur yn ei Gynllun Integredig ar gyfer 2024-29. Mae'r rhain yn cynnwys gofal iechyd, gweithgarwch a gomisiynwyd, cyflog newidiol, pwysau costau ar sail chwyddiant (gan gynnwys costau ynni a rhagnodi), a'r costau parhaus sy'n gysylltiedig ag ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y risgiau cynaliadwyedd ariannol a gyflwynir gan orwario ar y prif ffactorau sy'n rheoli ei gostau, ac wedi ymdrechu i gyfyngu gwariant yn well trwy, er enghraifft, gwella adrodd a chraffu ar wariant ar lefelau'r Bwrdd a phwyllgorau. Fodd bynnag, er gwaethaf y camau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i orwario ar yr holl brif ffactorau sy'n rheoli ei gostau.

12 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddiffyg cyfanswm rheoli o £12 miliwn yn 2023-24, gwaethygodd ei ddiffyg ariannol sylfaenol ac mae bellach yn £25.4

miliwn. Ym mis Mawrth 2024, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 â tharged arbedion o £7.9 miliwn a diffyg rhagamcanol o £24.9 miliwn. Fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd y cynllun yn dderbyniol, yn gredadwy, nac yn gallu cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru o ran y sefyllfa ariannol. O ganlyniad, cytunodd y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2024 i ymrwymo i £2 filiwn ychwanegol o arbedion i leihau ei ddiffyg i £22.95 miliwn ar gyfer 2024-25 yn ogystal ag archwilio ymhellach £2 filiwn ychwanegol gydag uchelgais o leihau'r diffyg i £20.95 miliwn ar gyfer 2024-25. Ym mis Gorffennaf 2024, roedd adborth llafar a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn dynodi nad oedd modd cefnogi'r cynllun o hyd. Ar adeg adrodd, roedd y Bwrdd Iechyd yn aros am ymateb ffurfiol gan Lywodraeth Cymru cyn ystyried y camau nesaf.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo drawsnewid ei wasanaethau i reoli'r ffactorau sy'n rheoli ei gostau yn well a sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae wedi ymrwymo ei hun felly i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal ar gyfer yr ardal - y Model Cynaliadwy Carlam[2]. Mae Cynllun Integredig 2023-26 yn cyflwyno dull tri cham (darganfod, dylunio, a darparu) yn cyflwyno'r model ac yn nodi'r rhaglenni y bydd y cam darparu yn canolbwyntio arnynt, sef: eiddilwch a'r model cymunedol, gofal arbenigedd, diagnostig ac wedi'i gynllunio, ac iechyd meddwl. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y Bwrdd Iechyd yn dechrau datblygu cynlluniau ynghylch nodi galw a chapasiti, blaenoriaethu, rhannu'n gamau, a chyflawni'r gwaith hwn. Er bod y dull trawsnewid hwn yn briodol ac yn angenrheidiol, nid yw'r costau a'r arbedion posibl sy'n gysylltiedig â'r model hwn yn eglur eto. Hefyd, bydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r model newydd yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd barhau i nodi a chyflawni arbedion, yn enwedig yn y byrdymor. Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'n eglur, felly, y costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r model, yn ogystal â chyflymu'r gwaith hwn ar frys i roi ei gyllid ar sail fwy cynaliadwy cyn gynted â phosibl. (**Argymhelliad 1**)

## Defnyddio data a gwybodaeth i nodi a dethol cyfleoedd arbed costau

14 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cyffredinol effeithiol ar waith ar gyfer defnyddio data a gwybodaeth i nodi a dethol cyfleoedd arbedion. Sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Cyfleoedd ym mis Gorffennaf 2023 a arweinir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant ac sy'n cynnwys y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, a'r Cyfarwyddwr Ymchwil ac Arloesedd Cynorthwyol. Mae'r grŵp yn ystyried cyfleoedd arbedion posibl yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth o sawl ffynhonnell allweddol fel timau ac adrannau, adolygiadau cyfarwyddiaethau, datblygiad parhaus y Model

[2] Bydd y model yn cael ei hysbysu gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a gofal iechyd seiliedig ar werthoedd gyda'r nod o drawsnewid y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu a gwella canlyniadau, profiad, a chost. Nod gofal iechyd seiliedig ar werthoedd yw cyflawni gwell canlyniadau i gleifion am gost is. Gallai hyn fod drwy, ond heb ei gyfyngu i gael gwared ar niwed, lleihau gordrin a thriniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig, neu fabwysiadu dulliau amgen neu ataliol.

Cynaliadwyedd Carlam, a data meincnodi gan Meincnodi'r GIG, CHKS[3], rheoli meddyginiaethau, VAULT[4], a fframwaith effeithlonrwydd GIG Cymru. Mae hefyd yn ystyried syniadau arbedion posibl a gynhyrchir trwy fenter 'Dyniadau Disglair' y Bwrdd Iechyd. Mae'r fenter wedi cynhyrchu 134 o ymatebion hyd yma, y nodwyd bod gan bum deg wyth ohonynt y potensial i sicrhau arbedion. Fodd bynnag, ceir lle i'r Grŵp Cyfleoedd ystyried cyfleoedd sy'n deillio o ffynonellau eraill o ddata a gwybodaeth, gan gynnwys canfyddiadau adolygiadau Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT)[5] sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol. (**Argymhelliad 2**)

15 Mae'r Grŵp Cyfleoedd yn neilltuo syniadau ar gyfer arbedion posibl i gyfres o Weithgorau sydd newydd eu sefydlu sy'n cyd-fynd â themâu'r Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd cenedlaethol (cyflog newidiol, dim tâl, gofal iechyd cymhleth, rheoli meddyginiaethau, ac ad-drefnu gwasanaethau). Swyddogaeth y gweithgorau hyn yw asesu'r cyd-destun cyfleoedd arbed costau a phenderfynu sut i'w weithredu pan fo'n berthnasol. Fodd bynnag, dynododd y Bwrdd Iechyd bod heriau o ran nodi cyfleoedd arbed costau sy'n berthnasol i'w fodel gwasanaeth, gan fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth gymharol yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth o ofal eilaidd y mae'n ei gomisiynu yn hytrach na'i ddarparu yn uniongyrchol.

16 Cyflwynir cynlluniau arbedion ymarferol i'r Grŵp Cyfleoedd a Phanel Adolygu (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau clinigol a chydymffurfiad) ar gyfer craffu pellach a sicrhau ansawdd. Hysbysir argymhellion a wneir gan y Grŵp Cyfleoedd i'r Bwrdd gan asesiad integredig o'r effaith ar ansawdd a chydraddoldeb i sicrhau bod y cynlluniau arbedion a ddewisir yn cael yr effaith niweidiol leiaf ar strategaeth, ansawdd, a pherfformiad. Mae Grŵp Cynghori Asesiadau Effaith y Bwrdd Iechyd yn adolygu ac yn darparu mewnbwn arbenigol i ddatblygiad ac ansawdd asesiadau effaith. Tan yn ddiweddar, roedd gan y Bwrdd Iechyd barodrwydd i dderbyn risg 'gochelgar' o ran cynaliadwyedd ariannol oherwydd ei bryderon ynghylch effaith niweidiol bosibl arbedion ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Fodd bynnag, mae bellach wedi mabwysiadu parodrwydd i dderbyn risg 'agored' o ran cynaliadwyedd ariannol, gan ddynodi ei fod yn barod i ystyried pob opsiwn a dewis y rhai sydd fwyaf tebygol o arwain at gyflawniad llwyddiannus tra'n cynnig lefel dderbyniol o fudd.

17 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu rhaglen gofal iechyd seiliedig ar werthoedd fel dull allweddol o sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae'r rhaglen, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a'r Dirprwy Brif Weithredwr/y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid, Cyfalaf a Chymorth yn cynnwys amcanion allweddol i'r Grŵp Cyfleoedd ysgogi gwerth gwell ar draws llwybrau, gan

[3] Darparwr gwasanaethau gwybodaeth, meincnodi, a gwella ansawdd gofal iechyd yw Caspe Knowledge HealthCare Systems (CHKS).

[4] Rheolir y Pecyn Cymorth Gwerth, Dyrannu, Defnyddio a Dysgu (VAULT) gan Weithrediaeth y GIG i gynorthwyo a gwella defnydd o adnoddau ar draws GIG Cymru.

[5] Rhaglen â'r bwriad o wella triniaeth a gofal cleifion trwy adolygiadau trylwyr o wasanaethau, meincnodi, a chyflwyno sail dystiolaeth wedi'i hysgogi gan ddata i gefnogi newid yw Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT).

gynnwys Dirywiad Maciwlaidd Cysylltiedig ag Oedran WET, cataractau, a chyflyrau cyhyrysgerbydol.

## Darparu cyfleoedd arbed costau

18 Ystyriwyd gennym a oes gan y Bwrdd Iechyd:

- hanes da o ddarparu cynlluniau arbedion a gwelliannau cost;
- cynlluniau eglur ar waith i gyflawni'r arbedion cost y mae'n eu nodi; a'r
- sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i ddarparu ei gyfleoedd arbed costau a gytunwyd.

19 Canfuwyd gennym fod **gallu'r Bwrdd Iechyd i fodloni ei dargedau arbedion cyffredinol wedi amrywio'n sylweddol. Fodd bynnag, o'r arbedion a sicrhawyd yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r mwyafrif wedi bod yn gylchol eu natur. Mae'r hanes amrywiol hwn, ynghyd â bylchau o ran sgiliau a chapasiti mewn meysydd allweddol, yn cyflwyno risgiau i fodloni ei dargedau arbedion ar gyfer 2024-25.**

### Hanes o ddarparu cynlluniau arbedion a gwelliannau cost

20 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 1**, mae gallu'r Bwrdd Iechyd i fodloni ei dargedau arbedion cyffredinol wedi amrywio'n sylweddol. Fodd bynnag, mae ei berfformiad wedi gwella yn ddiweddar, wrth i'r Bwrdd Iechyd fodloni 84% o'i darged arbedion yn 2023-24 o'i gymharu â 22%, 29%, a 9% yn 2022-23, 2021-22, a 2020-21, yn eu trefn. Fodd bynnag, o'r arbedion a sicrhawyd bob blwyddyn, roedd mwyafrif yr arbedion a sicrhawyd yn gylchol eu natur – 86% yn 2023-24, 80% yn 2022-23, a 100% yn 2021-22 a 2020-21, yn eu trefn. Yn wir, sicrhaodd y Bwrdd Iechyd lefelau sylweddol uwch o arbedion cylchol yn 2023-24 o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol.

21 Er bod y gwelliannau hyn yn gadarnhaol, dylid nodi na wnaeth y Bwrdd Iechyd addasu ei darged arbedion gwreiddiol ar gyfer 2023-24 i adlewyrchu'r £3.2 miliwn o gamau lliniaru sy'n ofynnol i sicrhau ei gyfanswm diffyg rheoli o £12 miliwn. Pe bai wedi gwneud hynny, byddai wedi sicrhau 59% yn unig o'i darged arbedion yn 2023-24 (o'i gymharu ag 84%), â 50% o'r rhain yn gylchol eu natur (o'i gymharu ag 86%). Fodd bynnag, fel yr ydym yn ei drafod ym **mharagraff 33**, adroddodd y Bwrdd Iechyd i'w Fwrdd ei fod wedi sicrhau £12.1 miliwn o arbedion erbyn Mis 12 2023-24 oherwydd y ffaith iddo gydnabod enillion cyfrifyddu, nad ydynt yn gylchol eu natur ac a adroddir ar wahân i Lywodraeth Cymru. Mae hanes amrywiol y Bwrdd Iechyd o ran sicrhau arbedion, ei ddibyniaeth ar arbedion nad ydynt yn gylchol i fodloni'r arbedion ychwanegol a oedd yn ofynnol yn 2023-24, a phwysau cost cynyddol yn parhau i gyflwyno risgiau i'w gynaliadwyedd ariannol.

**Arddangosyn 1: hanes arbedion y Bwrdd Iechyd rhwng 2018 a 2024**

| Blwyddyn | Targed Arbedion Cyffredinol £(M) | Arbedion cyffredinol gwirioneddol a sicrhawyd (£M) | Arbedion cylchol fel % o'r targed arbedion cyffredinol | Arbedion nad ydynt yn gylchol a sicrhawyd (£M) | Arbedion cylchol a sicrhawyd (£M) |
|---|---|---|---|---|---|
| 2018-19 | 3.5 | 3 | 76% | 0.3 | 2.7 |
| 2019-20 | 5.6 | 3.4 | 45% | 0.9 | 2.5 |
| 2020-21 | 5.6 | 0.5 | 9% | 0 | 0.5 |
| 2021-22 | 1.7 | 0.5 | 29% | 0 | 0.5 |
| 2022-23 | 4.6 | 1 | 17% | 0.2 | 0.8 |
| 2023-24 | 7.5 | 6.3 | 72% | 0.9 | 5.4 |

Ffynhonnell: Datganiadau Monitro Misol Llywodraeth Cymru ac Adroddiadau Cyllid y Bwrdd Iechyd.

## Dull o ddarparu cynlluniau arbedion

22 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau eglur ar waith ar gyfer troi ei ofynion arbedion lefel uchel yn gynlluniau arbedion y gellir eu gweithredu. Yn gorfforaethol, ceir llinellau atebolrwydd eglur ar gyfer sicrhau arbedion a chyflwynir llythyr atebolrwydd i Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n nodi sawl gofyniad ariannol gan gynnwys targed arbedion. Caiff cyfrifoldeb am ddarpariaeth cynlluniau arbedion unigol ei ddirprwyo i'r arweinydd gweithredu a'r partner busnes cyllid perthnasol[6].

[6] Mae'r model partner busnes cyllid yn sicrhau ymgysylltiad ar reolaeth ariannol ac yn darparu cyswllt da rhwng gwasanaethau a chyllid corfforaethol. Mae'r partneriaid busnes ariannol yn gyfrifyddion ariannol sydd â chyfrifoldeb am gefnogi gwasanaethau, adrodd ariannol a darparu swyddogaeth gynghori.

Caiff arbedion eu hintegreiddio i fusnes fel arfer a'u tynnu o gyllidebau i adlewyrchu realiti gweithredu.

23 Fodd bynnag, mae perfformiad cynlluniau arbedion unigol yn ystod 2023-24 yn awgrymu bod lle i'r Bwrdd Iechyd bennu targedau mwy realistig a chyflawnadwy ar gyfer rhai o'i gynlluniau yn y dyfodol. Er enghraifft, cafodd rai diffygion sylweddol o ran arbedion yn erbyn ei darged gwasanaethau a gomisiynir yn ystod chwarter tri 2023-24. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn effeithio'n berthnasol y gallu i fodloni'r targed arbedion cyffredinol cychwynnol oherwydd iddo gael ei fantoli gan orddarparu arbedion mewn meysydd eraill, sef rheoli meddyginiaethau (£1 filiwn yn erbyn targed o £0.490 miliwn), dim tâl (£3.1 miliwn yn erbyn targed o £2.6 miliwn) a gwariant ar gyflogau (£0.843 miliwn yn erbyn targed o £0.526 miliwn).

24 Mae perfformiad rhai cynlluniau arbedion unigol yn ystod 2023-24 hefyd yn awgrymu bod lle i gryfhau trefniadau darparu. Er enghraifft, mae arbedion cyflog yn elfen sylweddol o gynllun arbedion y Bwrdd Iechyd, a gofyniad o fewn hynny i leihau costau asiantaeth. Ym mis Awst 2023, derbyniodd y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad yr wybodaeth ddiweddaraf am dâl asiantaeth a amlygodd bod y Bwrdd Iechyd yn mynd trwy flwyddyn arall o gostau asiantaeth uwch. O ganlyniad, sefydlodd y Bwrdd Iechyd raglen lleihau gwariant asiantaeth a datblygodd gynllun prosiect â sawl maes o bwyslais. Er gwaethaf hyn, bu gorwariant o £2.3 miliwn yn erbyn y cynllun blwyddyn hyd yma ym Mis 12 2023-24, sy'n awgrymu nad oedd y cynllun gweithredu a threfniadau cyflawni cysylltiedig yn ddigon cadarn i gyflawni'r nodau a fwriadwyd o'r rhaglen. (**Argymhelliad 3**)

25 Mae gan y Bwrdd Iechyd fecanweithiau effeithiol ar gyfer cyfathrebu ei gynlluniau arbedion cost i staff, defnyddwyr gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill. Mae'n cyfathrebu yn weithredol â staff gan ddefnyddio ei dudalen cynaliadwyedd ariannol ar ei safle mewnrwyd, sioeau teithio llesiant, trafodaeth o adroddiadau cyllid yn y Fforwm Partneriaeth Lleol a Rhwydwaith 'Chat 2 Change' sy'n cynnwys aelodau undebau llafur a hyrwyddwyr staff. Rydym hefyd yn nodi dull y Bwrdd Iechyd o ymgysylltu â staff o ran sicrhau arbedion trwy leihau staff yn ei wasanaethau glanhau, arlwyo, a phorthorion. Canfuwyd tystiolaeth gennym o gyfathrebu a chymorth da i staff i'w helpu i ddeall rhesymau a goblygiadau'r newidiadau. Mae cyfarfodydd Bwrdd cyhoeddus yn parhau i gael eu cynnal ar sail rithwir a'u ffrydio'n fyw, ac mae'r papurau ategol yn cynnwys adroddiadau cyllid sy'n cael eu gwneud ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

## Sgiliau a chapasiti i ddarparu cyfleoedd arbedion

26 Mae gan y Bwrdd Iechyd fwlch sgiliau a chapasiti cyffredinol o ran agweddau ariannol a thrawsnewidiol sicrhau arbedion. Ac eithrio ei Grŵp Cyfleoedd, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o arbenigedd o bob rhan o'r sefydliad, mae gan y Bwrdd Iechyd adnoddau arloesi a gwella cyfyngedig ar gael iddo. Rhoddwyd ystyriaeth i sefydlu Swyddfa Rheoli Rhaglen (PMO). Fodd bynnag, o ystyried ei maint posibl, byddai angen hefyd i'r PMO ddibynnu ar gymorth ychwanegol gan y tîm cyllid corfforaethol sydd eisoes wedi'i ymestyn o gofio heriau ariannol y Bwrdd Iechyd a chraffu allanol cynyddol. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau asesiad

o gapasiti, gallu, a chynaliadwyedd y Tîm Cyllid. Canfu fod gan y Tîm Cyllid ddiffyg capasiti addas ar lefel uwch, ac mae felly'n bwriadu recriwtio partner busnes cyllid ychwanegol i gryfhau ei gapasiti gweithredu a chorfforaethol i sicrhau arbedion. Hefyd, mae adroddiadau cyllid yn tynnu sylw cyson at risgiau capasiti ar draws dimau gweithredu ehangach sydd hefyd yn effeithio ar eu gallu i ganolbwyntio ar sicrhau arbedion. (**Argymhelliad 4**)

27 Mae'r Bwrdd Iechyd yn amlygu capasiti trawsnewidiol fel risg gritigol yn ei Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn nodi sawl mesur rheoli a cham lliniaru i reoli'r risg yn weithredol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes ganddo ddealltwriaeth gyflawn o'r sgiliau a'r capasiti sydd eu hangen arno i ddarparu ei Fodel Cynaliadwyedd Carlam, sy'n hanfodol iddo sicrhau'r effeithlonrwydd a'r arbedion sy'n ofynnol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae hwn yn faes y bydd angen mynd i'r afael ag ef os yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd i fod yn llwyddiannus o ran symud oddi wrth ei ddull o sicrhau arbedion byrdymor nad ydynt yn gylchol i un lle mae meysydd trawsnewidiol mwy cymhleth o newid yn helpu i fodloni ei dargedau ariannol yn y dyfodol. (**Argymhelliad 5**)

## Monitro a throsolwg o gyflawni arbedion cost

28 Ystyriwyd gennym:

- a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull effeithiol o adrodd a monitro darpariaeth ei gynlluniau arbed costau;
- a yw'r Bwrdd Iechyd yn nodi risgiau i'r ddarpariaeth o gynlluniau arbedion a chamau i liniaru'r risgiau hynny; ac
- a yw'r Bwrdd Iechyd yn rhoi dysgu ar waith lle nad yw cynlluniau arbedion cost wedi cael eu cyflawni.

29 Canfuwyd gennym fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau gweddol effeithiol ar gyfer monitro ac adrodd ar arbedion cost. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i ddarparu sicrwydd cryfach bod cynlluniau lleihau costau allweddol yn cael yr effaith a fwriadwyd, i gryfhau trefniadau rheoli risg, ac i gyflwyno dull systematig ar gyfer dysgu gwersi o gynllunio a sicrhau arbedion.**

### Adrodd a monitro cyflawniad cynlluniau arbedion

30 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau gweddol effeithiol ar gyfer monitro ac adrodd cyflawniad arbedion. Ar lefel gorfforaethol, adroddir cyflawniad cyffredinol yn erbyn targedau arbedion i'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad, a'r Board yn rhan o'r adroddiadau cyllid mater o drefn. Mae'r adroddiadau yn eglur ac yn cynnig trosolwg o gynnydd yn erbyn targedau arbedion unigol a chyfunol ac yn nodi risgiau a chamau lliniaru. Maent hefyd yn cynnwys dolenni i ddatganiadau monitro misol y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl bellach am arbedion.

## Nodi risgiau i gyflawni cynlluniau arbedion

31 Fel yr amlygwyd yn ein gwaith Asesiad Strwythuredig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu heb Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) ers sawl blwyddyn tan i'r Bwrdd gymeradwyo BAF wedi'i ddiweddaru ym mis Mai 2024. Er gwaethaf hyn, llwyddwyd i weld risgiau ariannol ehangach ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau â chraffu a throsolwg da ar yr wybodaeth a gyflwynwyd. Yn ystod 2023-24, roedd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys risg yn ymwneud â rheoli adnoddau ariannol yn ystod y flwyddyn a dros y tymor canolig. Mae dwy elfen y risg wedi cael dyfarniad RAG[7] coch â sgoriau risg, rheolaethau, camau lliniaru a'u heffaith cyffredinol debyg.

32 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau boddhaol yn gyffredinol ar gyfer nodi risgiau cyflawni arbedion ar lefel weithredu, a gwelsom dystiolaeth dda ei fod wedi casglu'r wybodaeth hon ar gyfer rhai o'i gynlluniau fel rheoli meddyginiaethau a'i gynlluniau arbedion gwasanaethau arlwyo, domestig a phorthorion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir ar draws pob cynllun. O ganlyniad, dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o nodi a chofnodi camau lliniaru ar draws bob cynllun i ddangos ei fod yn rheoli ac yn lliniaru risgiau arbedion gweithredu yn weithredol. (**Argymhelliad 6**)

33 Fel pob corff GIG yng Nghymru, mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu (dyfarniad RAG) ei gynlluniau arbedion i benderfynu ar faint y risg o fethu a chyflawni. Ym Mis 3 2023-24, nododd y Bwrdd Iechyd bod 63% o'i gynlluniau arbedion yn 'oren'. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau oren droi'n gynlluniau gwyrdd (h.y. tebygolrwydd cryf o gyflawni) o fewn tri mis. Nododd adroddiad cyllid y Bwrdd Iechyd i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad gam i ddatblygu mwy o sicrwydd o ran cynlluniau 'oren' fel eu bod yn troi'n 'wyrdd.' Yn gadarnhaol, bedwar mis yn ddiweddarach, ym Mis 8 2023-24, adroddodd y Bwrdd Iechyd mai dim ond 1% o'i gynlluniau arbedion oedd yn dal i fod yn 'oren' gan ddangos ei fod yn mynd i'r afael â risgiau arbedion yn gyflym. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn nodi cynlluniau arbedion coch yn ei adroddiadau cyllid i'r Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad sy'n dangos cyfleoedd piblinell y mae angen eu troi'n gynlluniau y gellir eu cyflawni. Ym Mis 12 2023-24, adroddodd y Bwrdd Iechyd bod £12.1 miliwn o gynlluniau â dyfarniad 'gwyrdd' wedi cael eu sicrhau, a oedd yn cynnwys enillion cyfrifyddu o £5.7 miliwn. Fodd bynnag, roedd ganddo £4.2 miliwn o gyfleoedd piblinell 'coch' nad oeddent wedi cael eu troi'n gynlluniau 'gwyrdd' neu 'oren' y gellid eu cyflawni o hyd. (**Argymhelliad 7**)

## Rhoi dysgu ar waith

34 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol yn gyffredinol ar gyfer gwerthuso, gwella, ac ymwreiddio ei drefniadau arbedion cost. Mae'n ystyried ac yn ceisio sicrwydd fel mater o drefn o waith Archwilio Mewnol trwy ei Bwyllgor Archwilio, Risg, a Sicrwydd (ARAC). Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023, ystyriodd yr ARAC adroddiad Archwilio Mewnol ar Gynlluniau Arbedion a Fframwaith Effeithlonrwydd y

[7] Coch, Oren, Gwyrdd.

Bwrdd Iechyd, a roddodd sicrwydd rhesymol, ac a wnaeth sawl argymhelliad risg ganolig ac isel i wella'r trefniadau. Cafodd gweithrediad yr argymhellion ei fonitro gan ddefnyddio dull tracio Argymhellion Archwiliad Mewnol y Bwrdd Iechyd, a dynododd ddiweddariad i'r ARAC ym mis Ionawr 2024 bod yr holl argymhellion wedi'u cwblhau.

35 Yn ystod 2023-24, dangosodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn gallu ymateb yn gyflym i amgylchiadau ariannol sy'n newid. Sefydlodd ei Grŵp Cyfleoedd yn gyflym i nodi arbedion ychwanegol mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023, a lle'r oedd perfformiad yn erbyn ei darged arbedion gwreiddiol o £7.5 miliwn ddim ar y trywydd iawn. Yn sgil hynny, bodlonodd ei gyfanswm diffyg rheoli diwygiedig o £12 miliwn. Er iddo wneud hynny trwy sicrhau arbedion nad ydynt yn gylchol yn bennaf, ni fyddai wedi cyflawni hyn pe na bai wedi nodi cyfleoedd arbed ychwanegol neu wedi ehangu ffrydiau gwaith allweddol i ystyried arbedion o agweddau eraill ar fusnes y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd, felly, geisio nodi'r gwersi allweddol o'r profiad hwn a rhoi'r dysgu hwn ar waith yn ei ddull o ymdrin ag arbedion ariannol yn y dyfodol, gyda'r nod o symud oddi wrth ei ddibyniaeth ar arbedion nad ydynt yn gylchol. (**Argymhelliad 8**)

# Argymhellion

36 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 2: argymhellion**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflymu'r gwaith o gyflwyno'r Model Cynaliadwy Carlam a chyfrifo'n llawn y costau a'r arbedion posibl a fydd yn deillio o'i gyflwyno er mwyn rhoi ei gyllid ar sail fwy cynaliadwy. **(Paragraff 13)** |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o ddefnydd o adolygiadau Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT) sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol fel ffynhonnell bellach o wybodaeth bosibl i hysbysu ei drefniadau nodi arbedion. **(Paragraff 14)** |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd bennu targedau heriol ond realistig ar gyfer ei gynlluniau arbedion unigol. Dylai hefyd ddatblygu cynlluniau cadarn ond cyflawnadwy ar gyfer ei gynlluniau ynghyd â threfniadau cyflawni addas i sicrhau eu bod yn cyflawni'r nodau a fwriadwyd. **(Paragraffau 23 a 24)** |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A4 | Dylai'r Bwrdd Iechyd ehangu ei asesiad o gapasiti y tu hwnt i'w Dîm Cyllid i nodi a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg neu fylchau yn yr adnoddau sydd ar gael yn ei dimau gweithredu ehangach. **(Paragraff 26)** |
| A5 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau'n gyflym bod ganddo ddealltwriaeth gyflawni a thrylwyr o'r sgiliau, y capasiti, a'r adnoddau (gan gynnwys meysydd arloesi a gwella) i ddarparu'r Model Cynaliadwy Carlam yn effeithiol. **(Paragraff 27)** |
| A6 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'n eglur risgiau cyflawni arbedion, a chamau lliniaru yn ei drefniadau rheoli risg corfforaethol a gweithredu. **(Paragraffau 31 a 32)** |
| A7 | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu'r ffordd orau o droi ei gynlluniau arbedion coch yn gynlluniau gwyrdd ac oren cylchol sydd â siawns realistig o sicrhau'r arbedion a nodwyd. **(Paragraff 33)** |
| A8 | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'r gwersi allweddol o'i ddull o nodi a chyflawni arbedion yn gyflym yn ystod 2023-24 a rhoi'r dysgu ar waith yn ei ddull yn y dyfodol gyda'r nod o ddibynnu llai ar arbedion nad ydynt yn gylchol. **(Paragraff 35)** |

# Atodiad 1

## Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r meini prawf archwilio manwl ar gyfer yr adolygiad hwn**.**

### Nodi cyfleoedd arbed costau

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| **Deall y ffactorau sy'n rheoli costau** | • Mae mantolen agoriadol y sefydliad yn wir ac yn deg.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer nodi a dadansoddi'r ystod lawn o ffactorau cyflog ac nad ydynt yn ymwneud â chyflog sy'n rheoli ei gostau yn y byrdymor, y tymor canolig, a'r hirdymor.<br>• Mae gan y sefydliad ddealltwriaeth dda o faint yr arbedion cost sy'n ofynnol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y byrdymor, y tymor canolig, a'r hirdymor ac wedi pennu targedau realistig a chyflawnadwy yn unol â hynny.<br>• Mae'r Bwrdd yn cymryd rhan briodol yn y gwaith o oruchwylio, herio, a chraffu ar ddadansoddiadau ariannol a thargedau arbed costau y sefydliad. |
| **Defnyddio data a gwybodaeth i nodi a dethol cyfleoedd arbed costau** | • Mae'r sefydliad yn manteisio ar wybodaeth feincnodi o amrywiaeth o ffynonellau ac yn ei defnyddio fel mater o drefn (e.e. Meincnodi'r GIG, CHKS, Dangosyddion Perfformiad Allweddol Rheoli Meddyginiaethau)<br>• Mae'r sefydliad yn manteisio ar ddata a gwybodaeth arbedion effeithlonrwydd o amrywiaeth o ffynonellau ac yn eu defnyddio fel mater o drefn (e.e. Fframwaith |

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
| --- | --- |
| | Effeithlonrwydd GIG Cymru / VAULT, adolygiadau GIRFT, adolygiadau / cyfleoedd Gofal Iechyd seiliedig ar Werth lleol)<br>• Mae gan y sefydliad brosesau eglur ar waith i ganfasio, casglu, ac asesu syniadau ac awgrymiadau o ran cyfleoedd arbed costau gan staff, defnyddwyr gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill yn rheolaidd.<br>• Mae gan y sefydliad brosesau eglur ar waith ar gyfer ymateb i gyfleoedd arbed costau a nodwyd yn ganolog gan Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru. |
| **Dethol cyfleoedd arbed costau** | • Mae gan y sefydliad broses eglur ac ailadroddol ar waith i werthuso pob cyfle arbed costau posibl ar gyfer cyflawnadwyedd ac ar gyfer effaith ar gyflawni nodau strategol y sefydliad, amcanion llesiant, iechyd y boblogaeth, ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a gallu i fodloni targedau perfformiad / manyleb gwasanaeth yn y byrdymor, y tymor canolig, a'r hirdymor.<br>• Mae gan y sefydliad broses eglur ac ailadroddol ar waith ar gyfer craffu ar gyfleoedd arbed costau, eu cytuno, a'u cymeradwyo, sydd hefyd yn cynnwys y Bwrdd a'i bwyllgor(au) perthnasol.<br>• Mae cyfleoedd arbed costau a gytunwyd y sefydliad:<br>– yn realistig, yn gyflawnadwy, ac yn canolbwyntio ar sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i iechyd y boblogaeth sy'n cael ei gwasanaethu;<br>– yn cwmpasu lled swyddogaethau clinigol, gweinyddol, a thechnegol y sefydliad;<br>– yn cydbwyso arbedion untro nad ydynt yn gylchol â chyfleoedd arbed mwy cynaliadwy;<br>– yn ymgorffori arbedion cynhyrchiant, ond yn cydnabod na fydd y rhain yn arwain at ostyngiad o safbwynt ariannol; ac<br>– yn canolbwyntio ar drawsnewid tymor canolig i dymor hwy, yn ogystal â chyfleoedd byrdymor a chynyddrannol. |

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| | • wedi cael eu graddio a'u targedu yn briodol ar draws pob rhan o'r sefydliad (yn hytrach na chanran safonol wedi'i weithredu ar draws pob rhan.) |

## Darparu cyfleoedd arbed costau

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| **Dull o ddarparu cynlluniau arbedion** | • Mae gan y sefydliad gynlluniau ar waith ar gyfer darparu cyfleoedd arbed costau sy'n nodi'n eglur:<br>– yr arbedion ariannol a fydd yn cael eu sicrhau a sut y byddant yn cael eu mesur;<br>– yr effaith ragweledig ar strategaeth, ansawdd, a / neu berfformiad;<br>– y risgiau, y rheolaethau, a'r camau lliniaru allweddol;<br>– unrhyw ryngddibyniaeth â chynlluniau arbed costau eraill;<br>– unrhyw ddibyniaeth ar ffrydiau gwaith a strategaethau sefydliadol eraill;<br>– cerrig milltir cyflawni allweddol; a<br>– pha swyddog uwch sy'n gyfrifol ac yn atebol am gyflawni.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli cynlluniau arbed costau trawsbynciol.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i gyfathrebu ei gynlluniau arbed costau i staff, defnyddwyr gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill. |
| **Sgiliau a chapasiti i ddarparu cyfleoedd arbedion** | • Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau o ran darparu cynlluniau arbed costau ar bob lefel o'r sefydliad wedi'u cofnodi a'u deall yn eglur.<br>• Mae'r sefydliad wedi asesu'r sgiliau / gallu a'r capasiti sydd eu hangen i ddarparu ei gynlluniau arbed costau ar lefelau corfforaethol a gweithredu ac wedi rhoi trefniadau |

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
| --- | --- |
| | priodol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a bylchau (gan gynnwys y defnydd priodol o gapasiti / arbenigedd allanol.)<br>• Mae gan y sefydliad strwythurau ac adnoddau corfforaethol priodol ar waith (fel Swyddfa Rheoli Rhaglen) i:<br>– gadw'r ddarpariaeth ar y trywydd iawn,<br>– darparu her pan fo angen,<br>– cynorthwyo staff corfforaethol a gweithredu i reoli risgiau cyflawni, a<br>– darparu ymateb ystwyth a phrydlon i danberfformiad / tangyflawniad. |
| **Hanes o ddarparu cynlluniau arbedion a gwelliannau cost** | • Mae cynlluniau arbed costau yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu cyflawni i raddau helaeth.<br>• Ceir tystiolaeth o ddysgu yn cael ei roi ar waith lle nad yw cynlluniau arbed costau wedi cael eu cyflawni yn y gorffennol. |

## Monitro a throsolwg o gyflawni arbedion cost

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
| --- | --- |
| **Monitro'r ddarpariaeth o gynlluniau arbedion** | • Mae gan y sefydliad drefniadau eglur ar waith ar gyfer monitro darpariaeth sy'n adlewyrchu'r amserlenni a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu cynlluniau unigol a'r targed arbed costau cyffredinol. |

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| | • Mae'r sefydliad wedi dewis dangosyddion perfformiad allweddol priodol ac wedi rhoi rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod ansawdd data sylfaenol yn ddibynadwy ar gyfer monitro ac adrodd effeithiol.<br>• Mae dull y sefydliad o fonitro a thracio darpariaeth ei gynllun arbed costau yn cyd-fynd yn briodol â'i drefniadau rheoli ariannol ehangach (e.e., Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cynlluniau Cadw a Dirprwyo, dyraniadau cyllideb.)<br>• Mae'r sefydliad yn llunio adroddiadau wedi'u teilwra sy'n diwallu gwahanol anghenion defnyddwyr yn y gadwyn lywodraethu.<br>• Mae'r sefydliad yn sicrhau bod cyflawniad arbedion cost wedi'i adlewyrchu'n gywir mewn adroddiadau cyllid a gyflwynir i'r Bwrdd a / neu ei bwyllgor(au) perthnasol. |
| **Nodi risgiau i gyflawni cynlluniau arbedion** | • Mae'r sefydliad wedi nodi a chofnodi'r risgiau allweddol i gyflawniad yn y cofrestrau risg priodol (gweithredu, corfforaethol, a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.)<br>• Mae'r sefydliad yn rheoli / lliniaru'r risgiau yn weithredol ar y lefel briodol.<br>• Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i nodi ac uwchgyfeirio cynlluniau arbed costau nad ydynt ar y trywydd iawn a /neu sy'n cael effaith niweidiol / na ragwelwyd ar strategaeth, ansawdd, a / neu berfformiad.<br>• Mae'r sefydliad yn cymryd camau priodol yn brydlon lle nad yw cynlluniau arbed costau ar y trywydd iawn a / neu maent yn cael effaith niweidiol / na ragwelwyd ar strategaeth, ansawdd, a / neu berfformiad. |
| **Rhoi dysgu ar waith** | • Mae'r sefydliad yn ceisio sicrwydd ynghylch ei drefniadau trwy ddefnyddio archwiliad mewnol, neu adolygydd annibynnol a gwrthrychol tebyg.<br>• Mae'r sefydliad yn gwerthuso ei ddull o gyflawni arbedion cost yn briodol.<br>• Mae'r sefydliad yn defnyddio'n weithredol ei werthusiad(au) ei hun a sicrwydd a ddarperir gan archwiliad mewnol i nodi gwersi a ddysgwyd ac i newid / gwella ei drefniadau.<br>• Adroddir gwersi a ddysgwyd a newidiadau / gwelliannau i'r Bwrdd a / neu ei bwyllgor(au) perthnasol i alluogi ymateb ystwyth yn ystod y flwyddyn. |

| Maes | Meini Prawf Archwilio |
| --- | --- |
| | • Mae gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith i drosglwyddo a / neu integreiddio'n llawn newidiadau sy'n deillio o'i gynlluniau arbed costau i'w weithrediadau a'i weithgareddau busnes fel arfer. |

# Atodiad 2

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 4** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a ddeilliodd o'r dulliau isod.

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Hunanasesiad | Cwblhaodd y Bwrdd Iechyd hunanasesiad wedi'i strwythuro ar sail y meini prawf archwilio ("Yr Hyn y Gwnaethom Edrych Arno"). |
| Dogfennau | Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau gennym, a ddarparwyd i gefnogi'r hunanasesiad, gan gynnwys:<br>• Agendâu, papurau, a chofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgorau<br>• Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol<br>• Data meincnodi arbedion |

| Elfen o’r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol<br>• Adroddiadau a chynlluniau allweddol sy'n ymwneud â chyllid ac arbedion sefydliadol<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld yr uwch swyddogion a’r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Dr Carl Cooper – Cadeirydd y Bwrdd<br>• Hayley Thomas – Prif Swyddog Gweithredol<br>• Pete Hopgood – Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid, Cyfalaf a Chymorth<br>• Stephen Powell – Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu<br>• Debra Wood Lawson – Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant<br>• Dr Rhobert Lewis – Aelod Annibynnol<br>• Hywel Pullen – Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| Arsylwadau | Fe wnaethom arsylwi cyfarfodydd Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol.<br>• Bwrdd Cyhoeddus<br>• Sesiwn Datblygu’r Bwrdd<br>• Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 5:** Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | **Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflymu'r gwaith o gyflwyno'r Model Cynaliadwy Carlam a chyfrifo'n llawn y costau a'r arbedion posibl a fydd yn deillio o'i gyflwyno er mwyn rhoi ei gyllid ar sail fwy cynaliadwy.** | Cytunwyd – Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu rhaglen waith yn ymwneud â chynaliadwyedd yn y dyfodol â strwythur rhaglen a ffrwd waith: -<br>**'Tasglu' ar waith i archwilio tri maes:**<br>• model y dyfodol (adeiladu ar waith presennol)<br>• opsiynau a phenderfyniadau ynghylch pryd i adennill costau ariannol.<br>• cyfleoedd newydd yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata a meincnodi. | Ar waith ac yn cyd-fynd â'r amserlenni a nodwyd**.** | Cyfarwyddwr Gwelliant a Thrawsnewid |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | | Llinell amser a nodwyd ar waith ag ymgysylltu cychwynnol wedi'i gynllunio ar gyfer 24/25. | | |
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o ddefnydd o adolygiadau Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT) sy'n berthnasol i'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol fel ffynhonnell bellach o wybodaeth bosibl i hysbysu ei drefniadau nodi arbedion. | Cytunwyd – I'w nodi Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu'n llawn ag egwyddorion GIRFT ac wedi eu gweithredu ar gyfer ei wasanaethau darparwyr pan fo'n berthnasol ac yn gweithio gyda darparwyr eraill ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir ac felly eisoes wedi'u gweithredu. | Ar waith ac wedi'i gwblhau (sylwer fod hon yn broses barhaus). | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd bennu targedau heriol ond realistig ar gyfer ei gynlluniau arbedion unigol. Dylai hefyd ddatblygu cynlluniau cadarn ond cyflawnadwy ar gyfer ei gynlluniau ynghyd â threfniadau cyflawni addas i sicrhau eu bod yn cyflawni'r nodau a fwriadwyd. | Cytunwyd a nodwyd – Mae'r targedau a bennwyd yn heriol ac yn realistig ac yn cael eu hadolygu'n barhaus, anogir piblinell o gyfleoedd ar draws pob gwasanaeth i liniaru unrhyw ddiffygion. Mae proses gynhwysfawr eisoes ar waith i gyflawni yn erbyn cynlluniau fel y nodwyd. | Ar waith ac wedi'i gwblhau **(**sylwer fod hon yn broses barhaus**).** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid, Cyfalaf, Ystadau a Chymorth. |
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd ehangu ei asesiad o gapasiti y tu hwnt i'w Dîm Cyllid i nodi a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw | Cytunwyd – Mae'r Bwrdd Iechyd wedi hysbysebu swydd gyllid ychwanegol i gynorthwyo'r tîm partneriaid busnes yn y maes hwn. Bydd y | Wedi'i gwblhau ag adolygiad parhaus. | Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwelliant |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| | ddiffyg neu fylchau yn yr adnoddau sydd ar gael yn ei dimau gweithredu ehangach. | capasiti gweithredu ehangach yn cael ei adolygu’n barhaus i sicrhau bod y Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwelliant sydd newydd ei sefydlu (â thîm a phortffolio cysylltiedig wedi’i sefydlu) yn cefnogi cyflawniad mewn meysydd gweithredol yn ôl yr angen. | | |
| **A5** | Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau’n gyflym bod ganddo ddealltwriaeth gyflawni a thrylwyr o’r sgiliau, y capasiti, a’r adnoddau (gan gynnwys meysydd arloesi a gwella) i ddarparu’r Model Cynaliadwy Carlam yn effeithiol. | Wedi recriwtio i’r swydd Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwelliant newydd (â thîm a phortffolio cysylltiedig wedi’i sefydlu) i sicrhau bod capasiti ac arbenigedd priodol ar waith i gynorthwyo’r broses o gyflawni newid. | Ar waith ac wedi’i gwblhau (sylwer fod hon yn broses barhaus). | Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwelliant gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol |
| **A6** | Dylai’r Bwrdd Iechyd nodi’n eglur risgiau cyflawni arbedion, a chamau lliniaru yn ei drefniadau rheoli risg corfforaethol a gweithredu. | Cytunwyd, eisoes wedi’i gynnwys yn y gofrestr risg ond mae hyn wedi’i ddiweddaru a’i wella. | Ar waith ac wedi’i gwblhau (sylwer fod hon yn broses barhaus). | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| **A7** | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu'r ffordd orau o droi ei gynlluniau arbedion coch yn gynlluniau gwyrdd ac oren cylchol sydd â siawns realistig o sicrhau'r arbedion a nodwyd. | Cytunwyd a gweithredu parhaus. | Ar waith ac wedi'i gwblhau (sylwer fod hon yn broses barhaus). | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid, Cyfalaf, Ystadau a Chymorth. |
| **A8** | Dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'r gwersi allweddol o'i ddull o nodi a chyflawni arbedion yn gyflym yn ystod 2023-24 a rhoi'r dysgu ar waith yn ei ddull yn y dyfodol gyda'r nod o ddibynnu llai ar arbedion nad ydynt yn gylchol. | Cytunwyd a gweithredu parhaus. | Ar waith ac wedi'i gwblhau (sylwer fod hon yn broses barhaus). | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid, Cyfalaf, Ystadau a Chymorth. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.